



The Planning Inspectorate Yr Arolygiaeth Gynllunio

National Infrastructure
Planning
Temple Quay House
2 The Square
Bristol, BS1 6PN

Gwasanaethau 0303 444 5000
Cwsmeriaid:
e-bost: Wylfa@pins.gsi.gov.uk

I Bob Parti â Buddiant

Eich Cyf:

Ein Cyf: EN010007

Dyddiad: 5 Chwefror 2019

Annwyl Syr/Madam

Deddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd) a Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 (fel y'u diwygiwyd) – Rheol 13

Cais gan Horizon Nuclear Power am Orchymyn sy'n Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Gorsaf Bŵer Niwclear Wylfa Newydd

Hysbysiad o wrandawiadau

Rydym yn ysgrifennu at bob Parti â Buddiant i gyhoeddi dyddiadau, amserau a lleoliadau'r gwrandawiadau nesaf a gynhelir rhwng 4 ac 8 Mawrth 2019. Amlinellir manylion pwysig am y gwrandawiadau yn **Atodiad A** i'r llythyr hwn.

Ceisiadau i ymddangos mewn gwrandawiadau

Byddai o gymorth o ran rheoli gwrandawiadau mis Mawrth pe gallai'r Partion hynny â Buddiant hysbysu'r Rheolwr Achos, Kay Sully, yn y cyfeiriad post neu e-bost yn y prif lythyr erbyn **Dydd Iau 21 Chwefror 2019**:

- Os byddwch yn mynychu'r gwrandawiadau ym mis Mawrth
- Os dymunwch siarad yn unrhyw un o'r gwrandawiadau ym mis Mawrth
- Rhowch wybod i ni am unrhyw anghenion arbennig y gall fod gennych (e.e. mynediad i'r anabl, dolen glywed)

Y weithdrefn mewn gwrandawiadau

Mae'r weithdrefn i'w dilyn mewn gwrandawiadau wedi'i hamlinellu yn Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010. Rhaid i unrhyw sylwadau llafar fod yn seiliedig naill ai ar y Sylw Perthnasol neu'r Sylw Ysgrifenedig a wnaed gan yr

unigolyn sy'n gwneud y sylwadau, neu y gwneir y sylwadau ar ei ran.

Mae'r Awdurdod Archwilio yn gyfrifol am holi ar lafar y sawl sy'n rhoi tystiolaeth, ac ychydig iawn o gyfle y mae'r broses yn ei ganiatáu i groesholi rhwng partion.

Cynhelir ein harchwiliad yn bennaf drwy gyfnewid cyflwyniadau ysgrifenedig, a byddwn yn penderfynu a oes angen gwrandawriad ar fater neu bwnc penodol. Nid yw'r penderfyniad hwn yn gysylltiedig â pha mor berthnasol neu bwysig yr ystyriwn yw mater neu bwnc.

Agendâu gwrandawiadau

Ein nod yw cyhoeddi agenda ddrafft ar gyfer pob gwrandawriad ar dudalen y prosiect ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol o leiaf bum niwrnod gwaith cyn dyddiad y gwrandawriad. Mae'n bosibl y bydd yr union agenda ar ddiwrnod pob gwrandawriad yn newid yn ôl disgrisiwn yr Awdurdod Archwilio.

Y Gymraeg

Mae croeso i chi wneud cyfraniadau llafar yn Gymraeg; bydd cyfleusterau cyfieithu ar gael yn y gwrandawiadau i alluogi pobl i wneud hynny. Cewch hefyd wneud sylwadau ysgrifenedig ac ymateb i gwestiynau ysgrifenedig yn Gymraeg ar unrhyw adeg yn ystod yr archwiliad.

Yn gywir

Frances Fernandes

Frances Fernandes
Aelod Arweiniol y Panel Arolygwyr Archwilio

Atodiad A - Dyddiadau, amserau a lleoliadau ar gyfer gwrandawiadau Archwilio sydd i'w cynnal cyn bo hir

Hysbysiad o Wrandawiadau, ceisiadau i ymddangos a'r weithdrefn i'w dilyn mewn gwrandawiadau

Hysbysiad o Wrandawiadau o dan Adran 91 a 96 Deddf Cynllunio 2008

Dyddiad	Gwrandawriad	Amser	Lleoliad	Mynediad a pharcio
Dydd Llun 4 Mawrth 2019	Y trydydd Gwrandawriad Mater Penodol ar y DCO drafft yn cynnwys y Cytundeb a106	Drysau yn agor 09:00 Gwrandawriad yn dechrau 09:30	Gwesty Bae Trearddur Bae Trearddur Ynys Môn LL65 2UN	Mae lle parcio i gael (am dâl)
Dydd Mawrth 5 Mawrth 2019	Gwrandawriad Caffael Gorfodol	Drysau yn agor 09:00 Gwrandawriad yn dechrau 09:30	Gwesty Bae Trearddur Bae Trearddur Ynys Môn LL65 2UN	Mae lle parcio i gael (am dâl)
Dydd Mawrth 5 Mawrth 2019	Yr Ail Wrandawriad Llawr Agored (gyda'r nos)	Drysau yn agor 18:30 Gwrandawriad yn dechrau 19:00	Gwesty Bae Trearddur Bae Trearddur Ynys Môn LL65 2UN	Mae lle parcio i gael (am dâl)
Dydd Mercher 6 Mawrth 2019	Gwrandawriad Mater Penodol ar Ardal Datblygu Wylfa Newydd	Drysau yn agor 09:00 Gwrandawriad yn dechrau 09:30	Gwesty Bae Trearddur Bae Trearddur Ynys Môn LL65 2UN	Mae lle parcio i gael (am dâl)
Dydd Iau 7 Mawrth 2019	Gwrandawriad Penodol ar Safle arfaethedig cyfleusterau ar gorsafodd pŵer oddi ar y safle a safleoedd datblygu cysylltiedig eraill y tu allan i WNDA.	Drysau yn agor 09:00 Gwrandawriad yn dechrau 09:30	Gwesty Bae Trearddur Bae Trearddur Ynys Môn LL65 2UN	Mae lle parcio i gael (am dâl)
Dydd Gwener 8 Mawrth 2019	Y trydydd Gwrandawriad Mater Penodol ar Fioamrywiaeth	Drysau yn agor 09:00 Gwrandawriad yn dechrau 09:30	Gwesty Bae Trearddur Bae Trearddur Ynys Môn LL65 2UN	Mae lle parcio i gael (am dâl)



The Planning Inspectorate Yr Arolygiaeth Gynllunio

National Infrastructure
Planning
Temple Quay House
2 The Square
Bristol, BS1 6PN

Customer Services: 0303 444 5000
e-mail: Wylfa@pins.gsi.gov.uk

To all Interested Parties

Your Ref:

Our Ref: EN010007

Date: 5 February 2019

Dear Sir/Madam

Planning Act 2008 (as amended) and The Infrastructure Planning (Examination Procedure) Rules 2010 (as amended) – Rule 13

Application by Horizon Nuclear Power for an Order Granting Development Consent for the Wylfa Newydd Nuclear Power Station

Notification of hearings

We write to all Interested Parties to announce the dates, times and places of forthcoming hearings which will be held between 4 and 8 March 2019. Important details about the hearings are set out at **Annex A** to this letter.

Requests to appear at hearings

It would help with the management of the March hearings if those Interested Parties could notify the Case Manager, Kay Sully, at the postal or email address in the main letter by **Thursday 21 February 2019** if:

- You will be attending the March hearings
- You wish to speak at any of the March hearings
- Notify us of any special needs to may have (e.g. disabled access, hearing loop)

Procedure at hearings

The procedure to be followed at hearings is set out in The Infrastructure Planning (Examination Procedure) Rules 2010. Any oral representations must be based on either the Relevant Representation or Written Representation made by the person by whom, or on whose behalf, the oral representations are made.

The Examining Authority (ExA) is responsible for the oral questioning of a person giving evidence and the process affords very limited scope to allow cross-questioning between parties.

Our examination will be principally undertaken through the exchange of written submissions, and we will decide whether a hearing on a particular issue or topic is necessary. This decision is not connected to how relevant or important we consider an issue or topic to be.

Hearing agendas

We will aim to publish a draft agenda for each hearing on the project page of the National Infrastructure Planning Website at least five working days in advance of the hearing date. The actual agenda on the day of each hearing may be subject to change at the discretion of the ExA.

Welsh language

You are welcome to make oral contributions in Welsh; translation facilities will be available at the hearings to enable people to do so. You may also make written representations and respond to written questions in Welsh at any stage during the examination.

Yours faithfully

Frances Fernandes

Frances Fernandes
Lead Member of the Panel of Examining Inspectors

Annex A – Dates, times and place for forthcoming Examination hearings

Notice of Hearings, requests to appear and procedure to be followed at hearings

Notification of Hearings under Section 91 and 96 of the Planning Act 2008

Date	Hearing	Time	Venue	Access and parking
Monday 4 March 2019	Third Issue Specific Hearing on the draft DCO including the s106 Agreement	Doors open 09:00 Hearing starts 09:30	Trearddur Bay Hotel Trearddur Bay Anglesey LL65 2UN	Parking is available (at a charge)
Tuesday 5 March 2019	Compulsory Acquisition Hearing	Doors open 09:00 Hearing starts 09:30	Trearddur Bay Hotel Trearddur Bay Anglesey LL65 2UN	Parking is available (at a charge)
Tuesday 5 March 2019	Second Open Floor Hearing (evening)	Doors open 18:30 Hearing starts 19:00	Trearddur Bay Hotel Trearddur Bay Anglesey LL65 2UN	Parking is available (at a charge)
Wednesday 6 March 2019	Issue Specific Hearing on Wylfa Newydd Development Area (WNTA)	Doors open 09:00 Hearing starts 09:30	Trearddur Bay Hotel Trearddur Bay Anglesey LL65 2UN	Parking is available (at a charge)
Thursday 7 March 2019	Issue Specific Hearing on Proposed off-site power station facilities site and other associated development sites outside of the WNTA	Doors open 09:00 Hearing starts 09:30	Trearddur Bay Hotel Trearddur Bay Anglesey LL65 2UN	Parking is available (at a charge)
Friday 8 March 2019	Third Issue Specific Hearing on Biodiversity	Doors open 09:00 Hearing starts 09:30	Trearddur Bay Hotel Trearddur Bay Anglesey LL65 2UN	Parking is available (at a charge)